Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**First Steps Day Nursery Ltd**

**The Croft**
**Alltami Road**
**Bwcle**
**CH7 3PG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# First Steps Day Nursery Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | First Steps Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 51 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 05 Mai 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent yn cael eu cefnogi'n briodol i gyrraedd eu potensial ac i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn meddu ar gymwysterau addas, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant. Caiff ymddygiad ei reoli'n effeithiol. Mae rhyngweithio'r staff yn gadarnhaol, ac maent yn dangos amynedd, cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd ymatebol wrth gynllunio gweithgareddau, gan ganolbwyntio ar ddiddordebau'r plant a'u gwahodd i chwarae, yn unol â'r cwricwlwm yng Nghymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal yn ddiogel ac yn lân. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r staff ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl ofynion iechyd a diogelwch diweddaraf. Maent yn sicrhau bod y lleoliad yn addas i blant, yn olau, yn ysgogol ac yn cynnwys digon o adnoddau. Mae'r cyfleusterau awyr agored yn arbennig o dda.

Mae'r arweinwyr wedi creu amgylchedd cynnes, gofalgar a chartrefol yn y feithrinfa. Mae'r arweinwyr yn ystyried ystod oedran y plant ac yn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer cam datblygiad pob plentyn. Mae'r personau â chyfrifoldeb/rheolwr y feithrinfa a'r dirprwyon yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o fentrau newydd. Maent yn dirprwyo gwaith ymchwil i feysydd fel y cwricwlwm yng Nghymru, cynllunio ymatebol, asesu a chadw cofnodion, i arweinwyr yr ystafelloedd sy'n ysbrydoledig, yn arwain eu timau ac yn meithrin aelodau newydd o staff a myfyrwyr yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol ac yn rhannu eu gwybodaeth â'r staff. Maent yn gweithio'n dda gyda'r rhieni, gofalwyr, timau'r awdurdod lleol a sefydliadau cymorth.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio ciwiau llafar a dieiriau a chymhorthion gweledol. Maent yn gofyn cwestiynau wrth edrych ar y Malwod Mawr, er enghraifft, ac yn siarad am eu diddordebau a digwyddiadau teuluol yn ystod amser cinio. Mae'r babanod yn pwyntio at bethau yr hoffent eu cael ac yn mynegi eu teimladau drwy ddefnyddio iaith y corff. Er enghraifft, maent yn llefain pan na allant dynnu tegan allan o'r bocs ac mae'r staff yn ymateb yn gyflym iddynt. Mae pob un o'r plant yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt pan fyddant eisiau sylw, ac y caiff yr hyn y maent yn ei ddweud neu ei fynegi ei werthfawrogi. Mae rhai o'r plant yn amlieithog ac wedi setlo'n dda. Maent yn dysgu Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd ychwanegol. Mae'r plant yn symud yn rhydd o amgylch eu prif ystafell ac yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau o ran ble yr hoffent chwarae. Gall y plant hŷn fynd i'r ardal awyr agored pryd bynnag y byddant am wneud hynny, ond nid oes gan y babanod na'r plant bach nad ydynt yn gallu symud cystal cymaint o ryddid i ddewis gan fod angen cymorth arnynt wrth ddefnyddio'r grisiau.

Mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn i'r feithrinfa ac maent yn gyfforddus ac yn gyfarwydd iawn â'r ardaloedd chwarae, eu cyfoedion, y staff a'r drefn o ddydd i ddydd. O ganlyniad, maent yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni neu ofalwyr ac yn mwynhau eu cyfleoedd i chwarae a dysgu yn llwyddiannus. Mae gallu ymuno â'u brodyr a chwiorydd yn eu hystafelloedd yn rhoi cysur ychwanegol i'r plant iau wrth setlo yn y lleoliad, yn ogystal â'r posteri, y ffotograffau a'r arddangosfeydd o deuluoedd y plant ac aelodau eraill o'u teuluoedd sy'n byw ledled y byd. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau da ag eraill, yn enwedig â'u gweithwyr allweddol sy'n eu cefnogi'n dda ac yn eu helpu i deimlo'n gartrefol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyderus ag eraill, mae'r rhan fwyaf o'r plant cyn-ysgol yn defnyddio moesau da, yn barod eu cymwynas ac yn rhannu adnoddau yn dda. Gwelsom lawer o wenu a chofleidio a chlywsom sgyrsiau gofalgar rhwng y plant a'r staff wrth iddynt edrych ar lyfrau a defnyddio drychau, er enghraifft. Caiff rhai o'r plant ar draws yr ystod oedran gymorth i chwarae. Er enghraifft, mae'r plant iau yn meithrin eu sgiliau cymdeithasol o hyd. Mae rhai o'r plant yn ei chael hi'n anodd rhannu ac yn cael anawsterau wrth gyfleu eu hanghenion yn briodol. Mae'r plant hefyd yn dysgu sut i ganolbwyntio ar eu gweithgareddau am gyfnodau estynedig o amser, felly mae'n bwysig bod y gweithgareddau hynny yn ennyn eu diddordeb ac yn eu hysgogi er mwyn iddynt ddysgu i ddyfalbarhau wrth dorri'r llysiau, er enghraifft. Maent yn ymuno â'r dawnsio, y canu a'r curo dwylo yng nghwmni gwestai penodol, ac yn dangos boddhad mawr drwy chwerthin a gwenu. Caiff y plant eu cysuro, er enghraifft, pan fo tŵr o frics yn dymchwel ac yn eu syfrdanu, ond mae'n ddigon hawdd tynnu eu sylw drwy ddangos ffotograffau o aelodau o'u teulu iddynt ar y wal.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae. Maent yn ymgymryd â chyfleoedd dysgu ysgogol, fel y sesiynau canu a dawnsio lle mae'r babanod a'r plant bach yn chwifio rhubanau ac yn cropian drwy gylchoedd yn egnïol. Maent yn archwilio eu hamgylchedd llawn adnoddau yn annibynnol wrth chwarae ac yn cael rhwydd hynt i ddilyn eu diddordebau. Maent yn

mwynhau gwylio'r ceir yn mynd yn gyflym ar hyd y llawr ac yn rhuthro i'w nôl, tra bod eraill yn ymlacio yn y lloches ddarllen yn edrych ar lyfrau. Cyflwynwyd y Malwod Mawr i'r plant ac roeddent wrth eu bodd yn meddwl am enwau ar eu cyfer ac yn paratoi llysiau iddynt ar gyfer eu cinio. Mae'r babanod yn dangos ymdeimlad arbennig o gyflawniad pan fyddant yn llwyddo i godi eu hunain i sefyll wrth y bwrdd ac yn mwynhau defnyddio'r ardaloedd chwarae dŵr a thywod dan do. Mae'r plant bach yn mwynhau rhedeg o amgylch yr ardal awyr agored cyn iddynt fynd i gysgu.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus wrth iddynt dyfu a dysgu. Maent yn bwyta prydau wrth y bwrdd o oedran ifanc. Erbyn i'r plant gyrraedd oedran cyn-ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r ardal byrbryd hunanwasanaeth ac yn gallu paratoi, plicio a thorri eu ffrwythau eu hunain er mwyn paratoi eu brecwast eu hunain. Maent yn defnyddio cynwysyddion grawnfwyd, cartonau llaeth a jygiau o ddŵr yn annibynnol, ac yna yn ailgylchu eu gwastraff ar ôl iddynt orffen eu pryd neu fyrbryd. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ficeri yfed wrth iddynt feithrin eu sgiliau trin ac yn ddigon hyderus i roi cynnig ar arllwys eu diodydd o laeth neu ddŵr eu hunain. Mae pob un o'r plant yn helpu i dacluso gan ganu caneuon ac yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud. Maent yn golchi eu dwylo cyn prydau bwyd a gallant sychu eu trwynau eu hunain yn yr ‘orsaf sychu trwynau’ sy'n cynnwys adnoddau priodol pan fo'r staff yn awgrymu hynny iddynt.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach.  Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddiogelu ac maent yn deall y weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Er mwyn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel, mae'r staff yn sicrhau bod asesiadau risg tân yn cael eu cwblhau gyda chymorth asiantaethau allanol, a chaiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r oedolion a'r plant yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n ofalus, eu monitro gan y personau â chyfrifoldeb cyn cael eu rhannu â'r rhieni gan ddefnyddio ap y feithrinfa. Mae'r gweithwyr allweddol a chogydd y feithrinfa yn sicrhau y caiff anghenion deietegol y plant eu monitro'n ofalus. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda o fuddiannau cymryd risg wrth ganiatáu i'r plant archwilio'r amgylchedd awyr agored. Maent yn annog y plant i reoli eu risgiau eu hunain, ond yn eu goruchwylio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad mewn perthynas ag arferion hylendid. Mae'r staff yn sicrhau bod arferion golchi dwylo yn effeithiol ac yn briodol ar gyfer oedran y plant. Caiff cewynnau eu newid yn briodol. Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn sicrhau bod y plant yn cael byrbrydau a phrydau iach a maethlon. Mae'r bwydlenni yn darparu ar gyfer y plant hynny ag anghenion deietegol penodol. Er enghraifft, mae llaeth ceirch a llaeth heb lactos ar gael, ac anogir mamau sy'n bwydo ar y fron i barhau â'u harfer.

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored am gyfnodau buddiol o amser ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau. Gall y plant cyn-ysgol a'r plant bach fynd allan i'r awyr agored yn uniongyrchol o'u prif ystafelloedd, ond mae'r babanod a'r plant bach nad ydynt yn gallu symud cystal yn mynd allan mewn grwpiau bach ar adeg a bennir gan y staff. Mae'r plant yn cael budd cadarnhaol o chwarae yn yr awyr agored gan eu bod yn gwneud ymarfer corff, yn cael awyr iach ac yn archwilio'r amgylchedd naturiol a'r adnoddau eang. Mae'r staff yn gweithredu polisi rheoli ymddygiad effeithiol a phriodol ac yn defnyddio strategaethau cyson sy'n addas ar gyfer oedran y plant er mwyn annog rhyngweithio cadarnhaol. Er enghraifft, yn yr ystafell cyn-ysgol, anogir y plant i dacluso drwy ymgymryd â rôl archarwr sy'n rhan o ymgyrch gyfrinachol. Cânt eu rhybuddio i beidio â neidio a rhedeg yn gyflym yn yr ardal dan do gan nad oes digon o le i 'Spiderman' wneud hyn. Maent yn annog y plant i rannu mewn modd sensitif ac yn tawelu sefyllfaoedd mewn modd cynnes a thrwy dynnu sylw gan ddweud, "*We can share with our friends, look at X, share the pebbles, thank you*".

Mae'r staff yn gynnes ac yn garedig. Maent yn fodelau rôl da ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn yr hyn y mae pob plentyn yn ei wneud. Maent yn gwrando ar y plant mewn ffordd ymatebol ac yn eu hysgogi drwy ofyn cwestiynau er mwyn ehangu eu dysgu a meithrin eu sgiliau iaith. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant, gan ymuno yn eu chwarae pan fyddant yn eu gwahodd i wneud hynny. Mae'r staff yn defnyddio dulliau canmol yn llwyddiannus i annog y plant ac i ddatblygu eu hunan-barch.

Mae'r rheolwyr ac arweinwyr yr ystafelloedd yn meddu ar wybodaeth dda iawn am ddatblygiad plant. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol yn y foment, mewn amgylchedd sy'n cynnwys digon o adnoddau. Mae'r amgylchedd wedi'i osod i ysgogi chwilfrydedd ac i hyrwyddo dysgu drwy chwarae. O ganlyniad, mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Mae'r staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol i'w hannog i ystyried datblygiad y plant a'u diddordebau yn effeithiol. Maent yn defnyddio eu sgiliau a'u dealltwriaeth i arsylwi ar y plant ac i sicrhau eu bod yn gwybod pa sgiliau y mae angen iddynt eu hymarfer a'u cyflawni. Mae'r staff yn cynnig darpariaeth dda i'r plant ag anghenion ychwanegol, er enghraifft, wrth ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a rheoli ymddygiadau amhriodol ac anghenion dysgu penodol. Roedd y staff yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol er mwyn i'r plant ddod yn gyfarwydd â geiriau ac ymadroddion syml. Defnyddiwyd yr ymadrodd "*Dwi'n hoffi brocoli*" wrth edrych ar y malwod yn bwyta. Arweiniodd hyn at ofyn cwestiynau fel "*I wonder what will happen when the snails grow"* ac ymatebodd y plant yn llawn cyffro drwy ddweud "*We will we give them lots of food*." Canmolodd aelod o staff un o'r plant am ddyfalbarhau wrth bedlo ar feic, gan guro ei ddwylo a gweiddi "*look at you!*"

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i wella'r amgylchedd wrth i anghenion y plant newid. Mae ganddynt asesiadau risg ar waith sy'n cael eu harchwilio'n allanol ac sy'n sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith i gyfyngu mynediad i'r adeilad a'r ardaloedd awyr agored. Defnyddir system teledu cylch cyfyng yn effeithiol y tu mewn i'r adeilad i fonitro a gwella ansawdd y gofal a ddarperir a diogelwch y plant. Mae'r ffensys perimedr a'r giatiau yn ddiogel. Mae'r safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a chaiff peryglon eu dileu cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae giatiau diogelwch wedi cael eu gosod ym mhob rhan o'r lleoliad er mwyn cyfyngu pwy all ddefnyddio'r grisiau a chyfyngu mynediad i'r coridorau. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob amser yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer pob darn o gyfarpar a gaiff ei ychwanegu at yr ardal awyr agored, gan y gallai'r plant benderfynu eu defnyddio'n ddigymell a hynny heb oruchwyliaeth.

Mae'r ardaloedd wedi'u dylunio'n effeithiol i hyrwyddo annibyniaeth ac maent yn ysgogol ar gyfer ystod oedran y plant sy'n eu defnyddio. Mae prif ystafelloedd y plant yn groesawgar, yn cynnwys lliwiau niwtral ac eitemau go iawn a niwtral fel basgedi storio, gwinwydd yn hongian, matiau a byrddau coffi. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn effeithiol ochr yn ochr â ffotograffau i hyrwyddo cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn. Gellir mynd i'r ardal awyr agored yn uniongyrchol o ystafelloedd y plant bach a'r plant cyn-ysgol. Mae'r cyfleusterau chwarae awyr agored yn un o gryfderau'r feithrinfa hon, gyda'r tai chwarae, siglen teiar, wal ddringo a chyfarpar chwarae mawr yn cael eu defnyddio'n helaeth gan y plant. Ardal ddecin yw'r rhan fwyaf o'r ardal awyr agored ac mae'r rhan fwyaf ohoni wedi'i gorchuddio, sy'n darparu lloches a chysgod yn yr ardd ochr a'r ardd ffrynt. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r ardal awyr agored ym mhob tywydd. Mae'r coed, yr ardaloedd natur, yr arwynebeddau caled a'r glaswellt yn darparu ardaloedd awyr agored creadigol sy'n galluogi'r plant i archwilio a dysgu'n rhydd. Mae ardal hygyrch ar gael i'r plant storio eu hesgidiau glaw a'u dillad awyr agored. Mae digon o le storio, ac mae gan y feithrinfa sawl ardal wedi'i gorchuddio lle gellir gadael cyfarpar mawr fel bygis, siglwyr, beiciau, pramiau a thai chwarae. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn aros yn lân, yn sych ac mewn cyflwr da.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau pwrpasol sy'n cefnogi dysgu'r plant. Mae'r ystafelloedd yn cynnwys dodrefn priodol ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant sy'n eu defnyddio. Maent yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu ymgymryd â gweithgareddau sy'n ehangu ac yn gwella galluoedd ac annibyniaeth unigolion yn llwyddiannus wrth iddynt symud drwy'r lleoliad. Er enghraifft, caiff plant ym mhob rhan o'r feithrinfa eu cynorthwyo i ddefnyddio cyllyll diogelwch i dorri llysiau a ffrwythau a theclynnau gweini. Maent yn defnyddio offer go iawn a deunyddiau naturiol a chynaliadwy fel hen ficrodon segur, tywod, dŵr, compost, dail a changhennau lle bo'n bosibl ac maent yn gwneud eu toes chwarae eu hunain. Mae'r staff yn annog y plant i ailgylchu ac yn defnyddio pecynnau, er enghraifft, i greu modelau a phaentiadau ac i ail-lenwi basgedi o ddarnau rhydd bach a mawr. Er bod

llawer o bosteri, llyfrau a ffotograffau i hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol, prin iawn yw'r adnoddau fel doliau amlddiwylliannol sydd ar gael yn y gornel gartref a'r ardaloedd awyr agored.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r arweinwyr wedi creu amgylchedd cynnes, gofalgar a chartrefol yn y feithrinfa. Caiff y staff eu gwobrwyo â digwyddiadau arbennig i ddathlu eu llwyddiannau ac er mwyn datblygu'r ymdeimlad o dîm. Maent yn datblygu eu gweledigaeth, ar y cyd â'r staff, sy'n canolbwyntio ar ddull cyfannol o sicrhau llesiant a chynnydd pob plentyn. Mae'r arweinwyr yn ystyried ystod oedran y plant ac yn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer cam datblygiad pob plentyn. Mae'r personau â chyfrifoldeb/rheolwr y feithrinfa a'r dirprwyon yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o fentrau newydd. Maent yn dirprwyo gwaith ymchwil i feysydd fel y Cwricwlwm i Gymru, cynllunio ymatebol, asesu a chadw cofnodion, i arweinwyr yr ystafelloedd sy'n ysbrydoledig. Mae arweinwyr yr ystafelloedd yn arwain eu timau ac yn datblygu aelodau newydd o staff a myfyrwyr yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol, yn rhannu eu gwybodaeth â'r staff ac yn hyrwyddo polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Yr Unigolyn Cyfrifol yw cogydd y feithrinfa hefyd ac mae'n bresennol ar y safle ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau. Mae'n monitro anghenion a chyflawniadau'r staff a'r plant ac mae ar gael i gyfarfod â'r rhieni os bydd angen. Mae system archebu lleoedd a chynllun lleoli staff effeithiol ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod cymarebau da rhwng y staff a'r plant. Mewn ymateb i adborth gan y rhieni, rhannodd yr Unigolyn Cyfrifol bolisi cwyno'r lleoliad a'r polisïau a'r gweithdrefnau eraill a adolygwyd, gan gynnwys polisi cynhwysiant a chydraddoldeb cynhwysfawr.

Mae'r arweinwyr yn nodi cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu yn gywir. Maent yn arsylwi ar y staff ac yn gwerthuso sut y caiff yr ardaloedd eu defnyddio er mwyn gwneud y newidiadau sydd eu hangen. Nododd yr arolygiad ar y cyd blaenorol gan AGC ac Estyn welliannau yr oedd angen eu gwneud, ac mae'r feithrinfa wedi gwneud y gwelliannau hynny. Mae dogfen hunanwerthuso ac adroddiad ar ansawdd y gofal y lleoliad ar gyfer 2023 – 2024 yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cynllun gweithredu realistig ar gyfer gwelliannau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar fframwaith yr arolygiad ar y cyd.

Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau da â'u tîm o staff. Mae trefniadau cydweithio cadarn ar waith. Mae'r tîm o staff wedi bod yn gyson ers yr arolygiad blaenorol. Mae myfyrwyr yn aml yn aros yn y lleoliad ac yn cael eu hannog i gyflawni cymwysterau pellach ac yn llwyddo i'w hennill. Mae'r cyfarfodydd staff yn gynhyrchiol ac yn canolbwyntio ar anghenion hyfforddiant ac ar sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau ac yn deall hyfforddiant gorfodol ac yn cael cyfle i ymgymryd â chyrsiau hyfforddi perthnasol ac ystyrlon er mwyn meithrin eu set sgiliau a gwella eu hyder. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio'n effeithiol ac yn cynnal arfarniadau blynyddol er mwyn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd i nodi eu cryfderau a'r meysydd lle mae angen hyfforddiant pellach arnynt. Cynhelir y rhan fwyaf o'r hyfforddiant gorfodol yn fewnol neu ar-lein, sy'n sicrhau bod y staff yn cael amser i gwblhau'r hyfforddiant yn ystod oriau gwaith neu ar adeg sy'n gyfleus iddynt. Mae arweinwyr yr ystafelloedd yn rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn sicrhau, er enghraifft, bod y staff yn gyfarwydd â'r Cwricwlwm i Gymru a'r cwricwlwm nas

cynhelir ac yn eu defnyddio ym mhob rhan o'r feithrinfa.  Mae'r arweinwyr ac arweinwyr yr ystafelloedd yn helpu ei gilydd i gynllunio ac asesu er mwyn hyrwyddo cysondeb.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda gyda'r tîm hawl bore oes, sy'n rhoi cymorth mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysgu a dysgu i blant tair oed. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r rhieni a'r gofalwyr sy'n teimlo bod croeso iddynt yn y feithrinfa. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda sawl ysgol leol, ac yn cludo plant i'r ysgolion ac yn eu casglu bob dydd. Mae hyn yn eu helpu i drosglwyddo i'r ysgol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 29 (3) (a) | Nid oedd y staff yn cael sesiynau goruchwylio priodol. | Cyflawnwyd |
| 16 (2) (b) [i] | Nid oedd yr adolygiad o ansawdd y gofal yn ystyried barn y rhieni na'r plant. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| | Bydd y staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd. Rhaid cofnodi manylion y cyfarfodydd hyn. | Cyflawnwyd |
| | Goruchwylio'r staff | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 23 - Cyfarpar | Sicrhau bod nifer digonol o gadeiriau o faint sy'n addas i blant yn cael eu defnyddio wrth y byrddau yn ystod amser byrbryd ac amser bwyd. Yn benodol, rhaid i blant bach a babanod sy'n gallu symud allu rhoi eu traed ar y llawr er mwyn sicrhau sefydlogrwydd wrth ddefnyddio cadair. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff proses rheoli risg ei hystyried ar gyfer y 'system rhaff a gwifren' a ychwanegwyd yn ddiweddar, ochr yn ochr â'r manteision i'r plant o ran meithrin eu sgiliau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. |
| Safon 1 - Gwybodaeth | Adolygu'r holl wybodaeth sydd ar gael i'r staff a'r rhieni er mwyn sicrhau ei bod yn cyfeirio at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel y rheoleiddiwr. Mae angen sicrhau bod y wybodaeth yn gywir er mwyn grymuso rhieni/gofalwyr pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am ofal eu plant. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
| --- |
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ychwanegu doliau amlddiwylliannol at yr ardaloedd dysgu er mwyn atgyfnerthu ymdeimlad y plant o berthyn yn y lleoliad hwn ymhellach, sydd eisoes yn lleoliad cynhwysol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/09/2024